# Adroddiad 2021-22

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn y Neuadd Bentref ac ar Zoom ar nos Fawrth cyntaf y mis (ond nid yn Awst) am 7.30pm. Rhoddir hysbysiad o bob cyfarfod ar yr Hysbysfwrdd ar wal y Neuadd ac ar y wefan .www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk (Llanuwchllyn)

## Cynghorwyr

Mae 11 Cynghorydd Cymuned yn cynrychioli ward Llanuwchllyn:

**Y Cynghorwyr** Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts

**Cyngor Gwynedd:** Llanuwchllyn yw'r ward ar gyfer Cyngor Gwynedd, ac mae hefyd yn cynnwys Cyngor Cymuned Llangywer: Cynghorydd Alan Jones Evans*

**Mae hyn yn newid ar ôl Mai 5ed 2022 pryd y bydd Ward Gwynedd Llanuwchllyn hefyd yn cynnwys ward Cymuned Y Glyn yn Llangywer, a Ward Cymuned Llanycil*

**Clerc:** Lis Puw, cyngor-llangywer@outlook.com 07896964120

## Ariannol 2021-22

Incwm yn y flwyddyn: £25,900

Gwariant yn y Flwyddyn: £57,600

Mae'r gwahaniaeth oherwydd talu £23172 am uwchraddio'r Toiledau ( arian ym malans 2021) , prynu dau gluniadur i ddefnydd y Clerc a'r SAC ac oherwydd y Covid cyfraniadau 2020-21 a chyfraniadau 2021-22 wedi eu rhoi i'r cymdeithasau/ clybiau wrth iddynt ail-gychwyn.

## Cynllun Hyfforddi:

Hyfforddiant ar fod yn Gynghorydd os bydd aelodau newydd yn dilyn Etholiadau Mai 2022

**Archwilio:** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol - ar y wefan

Adroddiad yr Archwilydd Allanol - heb ddod i law

## Amcanion ar gyfer y flwyddyn 2021-22:

## Cynnydd:

- **Cynllun Ardal wedi ei gwblhau:** Dros y misoedd diwethaf mae'r Is-Bwyllgor o'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Cynllun Ardal. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun bu i ni adnabod

cryfderau a gwendidau'r gymuned, cynnal arolwg o'r holl gartrefi ynghyd â chyflogaeth yn y gymuned.

Bydd y Cyngor Cymuned felly yn defnyddio'r Cynllun Ardal yma fel sail i hybu'r ardal yn dilyn cyfyngiadau Covid-19, fel sail i drafodaethau pellach gyda thrigolion lleol, mudiadau lleol a chyrff cyhoeddus sy'n gweithio dros yr ardal (ee Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr) a sefydliadau allweddol eraill.

Bydd y ddogfen hefyd yn sail i benderfyniadau'r Cyngor Cymuned i'r dyfodol, boed yn benderfyniad i weithredu, i gefnogi, i ddylanwadu neu i fynegi barn. Mabwysiadwyd y Cynllun ym mis Rhagfyr 2021.

- **Cyfleusterau Cyhoeddus wedi agor:** Wedi gwaith adnewyddu a moderneiddio fe ail-agorwyd y cyfleusterau cyhoeddus yng nghanol y pentref ar ddiwedd mis Mai 2021 ar gyfer tymor yr haf. Golyga hyn fod gennym gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer pobl leol, ymwelwyr a theithwyr ar y gwasanaeth bws rhwng Y Bermo a Wrecsam.
- **Dathliadau'r Nadolig:** Cynhaliwyd nifer o weithgareddau er mwyn dathlu'r Nadolig gan gynnwys gosod coed Nadolig ger y Gilfach Goffa a'r Ysgoldy, cynnal cystadleuaeth addurno ffenestri ynghyd ac ymweliadau gan Sion Corn ar nosweithiau yn ystod mis Rhagfyr. Unwaith eto cafwyd canmoliaeth mawr i'r gweithgareddau hyn gan drigolion lleol.
- **Darparu plotiau ar gyfer claddu llwch:** Erbyn hyn mae ardal benodol wedi ei adnabod yn y Fynwent Newydd ar gyfer claddu llwch.

**Bwriadau** ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Cydweithio gyda Cyngor Cymuned Llangywer a Chyngor Cymuned Llangywer i fapio'r ardal
- Cydweithio gyda Sylfeini, Cynefin, Cyngor Gwynedd ac Elusen Maurice Vaughan i ddarparu tai i bobl leol

**Ymgysylltu gyda'r Gymuned:** Mae'r Cynghorwyr yn adnabod eu hardal yn drwyadl ac mae hynny wedi bod o fudd yn ystod y cyfnod Covid.

**Asedau:**

| **Ased** | **Lleoliad** | **Disgrifiad** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|
| | | | **£** |
| 1. Lloches Bws | Y Lôn | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 |
| 2. Lloches Bws | Peniel | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 |
| 3. Lloches Bws | Ty'n Ddol | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 |
| 4. Lloches Bws | Y Llan<br>(wrth yr Ysgol) | Gwneuthuriad plastig | 4224.00 |
| 5. Giat y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Giat addurniedig | 4107.00 |
| 6. Hysbysfwrdd y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Hysbysfwrdd<br>man-made Timber ar y ffens | 600.00 |
| 7. Hysbysfwrdd y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Hysbysfwrdd<br>man-made Timber ar bolion | 735.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. Y Fynwent Newydd | | | 1.00 |
| 9. Byrddau Gwybodaeth | 5 safle o gwmpas y pentref | Gwybodaeth hanesyddol a diddorol am yr ardal | 6500.00 |
| 10. Meinciau Pren | Y Gilfach Goffa | 2 sêt o bren | 800.00 |
| 11. Meinciau Pren | Y Fynwent<br>Ciosg y Pentref<br>Gwaelod rhiw<br>Maes y Pandy | 3 sêt o bren | rhoddion |
| 12. Meinciau | Wrth y groesffordd am Cynllwyd | 1 sêt o bren<br>1 sêt o blasting wedi ei ailgylchu | rhoddion |
| 13. Ciosg Pennantlliw | Pont Pennantlliw | Ciosg Ffôn | 1.00 |
| 14. Pwmp y Llan | Wrth Hen Dy'r Ysgol | Hen Bwmp dŵr y pentref | |
| 15. Cyfrifiaduron | Clerc, SAC | Gliniaduron - 2 | **1212.00** |
| Cyfanswm | | | 33220.00 |

**Cynllun Bioamrywiaeth:**

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yn cynnwys sesiwn darganfod pryfaid i'r ddisgyblion Ysgol O M Edwards, gosod bocsys nythu, sesiwn pladuro i'r Gymuned ym mynwent yr Eglwys

**Yn y flwyddyn nesaf:**

- cynnal y ddarpariaeth ar gyfer tylluanod a gwenoliaid duon
- parhau i gydweithio gyd Parc Cenedlaethol Eryri ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru